Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Buddion ymaelodi gyda'r Cyswllt

Beth yw Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Rhwydwaith o rai o gyrff anllywodraethol mwyaf deinamig, mentrus ac ymarferol Cymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt). Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynrychioli dros **420,000 o aelodau a chefnogwyr ledled Cymru ac yn berchen neu'n rheoli 5% o'i harwynebedd tir.** Mae grwpiau trafod y Cyswllt ar e-bost yn trafod amrywiaeth eang o bynciau; anfonir y diweddaraf ar bob dim o



Gwybodaeth a monitro gwleidyddol

Anfonir amrywiaeth eang o bynciau, yn cynnwys pob dim o fioamrywiaeth i bolisi morol a chynllunio, yn syth i'ch mewnflwch. Yn dibynnu ar eich meysydd diddordeb a gwath, byddwch yn derbyn gwybodaeth werthfawr gan staff y Cyswllt pob dydd. Hefyd, mae'r Cyswllt yn derbyn adroddiadau wythnosol gan newsdirect, cwmni monitro gwleidyddol, gan sicrhau eich bod yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ei angen arnoch gan y Senedd pob dydd Gwener. Mae'n adnodd hynod o werthfawr sy'n arbed llawer o amser i'r staff, yn ogystal â briffio'r holl staff yn rhwydwaith y Cyswllt ar ddatblygiadau gwleidyddol, newidiadau mewn polisi, ymgynghoriadau newydd a thrafodaethau arfaethedig.

Rhwydweithiau polisi & hyfforddiant



Ein prif ganolbwynt gwaith yw cynnal grwpiau polisi sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhain yn newid ac yn addasu yn ôl blaenoriaethau aelodau'r Cyswllt a ffrydiau gwaith presennol; gwiriwch ein gwefan am waith diweddar. **Fe all y Cyswllt ddarparu hyfforddiant am ddim neu wedi ei noddi ar eiriolaeth a chyfathrebu i bob aelod o'r Cyswllt.** Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar sut mae'r Senedd yn gweithio, sut i gysylltu'n effeithiol gyda gwleidyddion, deall y broses ddeddfwriaethol, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgyrchoedd amgylcheddol a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio ein llwyfan Basecamp. Cynhelir rhywfaint o'n hyfforddiant o fewn y Cyswllt a chynhelir rhywfaint gan arbenigwyr a hyfforddwyr allanol.



Cydweithio

Wrth gynnal rhwydwaith mor eang, sy'n cynnwys cyrff mawr ledled y DU a chyrff llai sy'n weithredol yng Nghymru'n unig, gallwn helpu'n gilydd. **Mae'r Cyswllt yn creu ymddiriedaeth a gallu ymysg ei aelodau, yn cefnogi cydweithio ac yn hwyluso consensws**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'n Cyd-Gyfarwyddwyr: susan@waleslink.org a karen@waleslink.org

wrth fynd i'r afael â materion amgylcheddol pwysig. Mae aelodau'n mynegi eu bod yn gwerthfawrogi gallu dysgu oddi wrth ei gilydd, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, a bod y rhwydwaith yn darparu cyfleoedd i 'weld y darlun mawr' ac yn gosod y materion y maen nhw'n gweithio arnyn
nhw mewn cyd-destun ehangach.

Eiriolaeth

Mae'r Cyswllt yn amlygu cyfleoedd rhwydweithio ac yn cynnal ein digwyddiadau ein hunain yn y Senedd. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd gydag Aelodau'r Senedd ac yn eu cysylltu gydag aelodau'r Cyswllt drwy gyfrwng y project Pencampwr Rhywogaethau. Rydym hefyd yn meithrin perthnasau da gyda Llywodraeth Cymru – drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidogion perthnasol – a chyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhwydweithio ar-lein

Mae'r Cyswllt yn edrych tua'r dyfodol a defnyddir technoleg ym mhle bynnag y mae hynny'n sicrhau bod cydweithio a chydlynu yn haws. **Rydym yn defnyddio llwyfan ar-lein o'r enw Basecamp, sy'n hawdd i'w ddefnyddio ac sy'n grymuso aelodau i gydweithio'n uniongyrchol o fewn rhwydwaith y Cyswllt,** heb ddefnyddio e-bost. Mae'n cynnwys mwy o arfau cyfathrebu, gyda negeseua un-i-un; ystafelloedd sgwrsio i grwpiau a fforymau.

Cysylltau ledled y DU

Mae gan Gyswllt Amgylchedd Cymru dair chwaer-gorff ledled y DU, yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar faterion sy'n berthnasol i'r DU gyfan, rydym yn cydweithio ac yn dysgu o ymarferion ein gilydd. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i gyrff anllywodraethol amgylcheddol y DU sy'n gwerthfawrogi'r cydweithio hwn. Rydym hefyd yn cydweithio'n dda gyda Greener UK, corff sy'n canolbwyntio ar ymgyrchoedd ac sy'n gweithio o Lundain.

Sut mae ymaelodi?

Mae gennym raddfa symudol o ffioedd aelodau, yn ddibynnol ar gyfanswm incwm eich corff. Cofiwch gael sgwrs â staff y Cyswllt i ddysgu mwy.

Mae croeso i unrhyw gorff nad-am-elw, anllywodraethol sy'n weithredol yng Nghymru, y mae eu hamcanion elusennol yn cyd-fynd â'n hamcanion ni, wneud cais am aelodaeth. Dylai aelodau weithio yng Nghymru ar faterion gwladol a gallu dangos nad ydyn nhw'n atebol i fuddion llywodraethol na masnachol wrth ddod i benderfyniadau (hynny ydy, cyrff nad ydyn nhw'n cael eu cynnal a'u rheoli gan y llywodraeth na'i asiantaethau, neu sy'n gweithredu fel corff 'er elw' yn unig).

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'n Cyd-Gyfarwyddwyr: susan@waleslink.org a karen@waleslink.org